

CYNGOR CAERDYDD

DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

DARPARIAETH YSGOLION CYNRADD CYFRWNG SAESNEG

YSGOL GYNRADD PENTYRCH

HYSBYSIR DRWY HYN yn unol ag Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Caerdydd (sef "yr Awdurdod" o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol ym marn y Cyngor, yn cynnig newid Ysgol Gynradd Pentyrch, Bronllwyn, Pentyrch, Caerdydd CF15 9QL drwy:

- Gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Pentyrch o 140 i 210 o leoedd
- Ehangu ystod oed yr ysgol o 4-11 i 3-11 drwy greu meithrinfa yn yr ysgol i alluogi cynnig 32 lle rhan amser.

Cynigir gweithredu'r cynnig o Fedi 2023.

Cynhelir Ysgol Gynradd Pentyrch gan Gyngor Caerdydd ar hyn o bryd.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Gellir gweld adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn yn:

[Agenda'r Cabinet Ddydd Iau, 10 Mawrth, 2021, 2:00 pm: Cyngor Dinas Caerdydd \(modern.gov.co.uk\)](#)

Ar hyn o bryd, capasiti'r ysgol yw 140 o leoedd. Nifer presennol y disgyblion yn yr ysgol yw 145.

Capasiti arfaethedig yr ysgol ar ôl gweithredu'r cynnig fydd 210.

Nifer y disgyblion a gaiff eu derbyn i'r ysgol yn y Dosbarth Derbyn (y grwp oedran perthnasol) yn 4 neu 5 oed, yn y flwyddyn ysgol gyntaf y caiff y cynnig ei roi ar waith, fydd 30.

Bydd 32 o leoedd meithrin rhan amser yn yr ysgol. Bydd hyn yn galluogi hyd at 32 o blant meithrin 3-4 oed (o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed) i gael addysg feithrin ran amser yn yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn parhau i dderbyn plant o'r ddau ryw.

Yr awdurdod lleol sy'n rheoli derbyn i'r ysgol.

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i'r ysgol yn sgil y cynigion hyn.

Bydd rhieni plant a dderbynir ar gyfer addysg feithrin yn dal angen gwneud cais am le yn yr ysgol os ydynt am i'w plentyn i drosglwyddo i'r dosbarth derbyn.

Nid yw mynychu'r feithrinfa yn gwarantu y cewch eich derbyn i'r ysgol.

Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion i'r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar gludo plant i'r ysgol.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef hyd at 02 Mehefin 2022, caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd i'r cyfeiriad e-bost canlynol: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Sylwer bod rhaid i unrhyw wrthwynebiadau o'r fath gynnwys enw llawn a chyfeiriad post yr un sy'n gwrthwynebu.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu yn ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â sylwadau'r awdurdod ar y gwrthwynebiadau hynny, cyn pen 7 niwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y penderfynir ar y cynnig.

Dyddiedig y 6ed o Fai 2022

Llofnod: Davina Fiore
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraethiant a Swyddog Monitro
Cyngor Caerdydd

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw egluro'i ystyron cyffredinol)

Mae Ysgol Gynradd Pentyrch yn ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg yn y Bronllwyn ym mhentref Pentyrch.

Cynigir bod capasiti Ysgol Gynradd Pentyrch yn cynyddu o 20 disgybl fesul grŵp blwyddyn i 30 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn o fis Medi 2023.

Byddai'r ysgol hefyd yn ymestyn ei ystod oedran o 4-11 i 3-11 drwy greu darpariaeth feithrin yn yr ysgol. Byddai nifer derbyn y ddarpariaeth Feithrin newydd yn 32 o leoedd rhan amser o fis Medi 2023.

Gweinyddir trefniadau derbyn i ysgolion ar gyfer Ysgol Gynradd Pentyrch gan yr awdurdod lleol ac ni fyddent yn cael eu newid.

Byddai trefniadau derbyn ar gyfer y feithrinfa hefyd yn cael eu rheoli gan yr awdurdod lleol. Nid oes dalgylchoedd ar gyfer lleoedd meithrin. Nid yw lle mewn meithrinfa yn rhoi mynediad awtomatig i'r Dosbarth Derbyn yn yr ysgol, rhaid gwneud cais newydd.

Mae'r polisïau derbyn i'w gweld yn:

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Gwneud-cais-am-le-mewn-ysgol/Documents/School%20Admissions%202022-23%20CY.pdf>

Gan y nodwyd nad oes llwybr cerdded diogel rhwng datblygiad Fferm Goitre Fach ac Ysgol Gynradd Pentyrch, nac unrhyw gynlluniau ar gyfer un cyn 2023/2024, byddai plant sy'n byw yno yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol i'r ysgol briodol agosaf sydd â lleoedd ar gael ar adeg gwneud cais.

Nid yw polisi Cludiant i'r Ysgol y Cyngor yn newid a gellir ei weld yn:

[POLISI CLUDIANT YSGOL \(caerdydd.gov.uk\)](http://caerdydd.gov.uk)